



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 341 – 20 Ionawr 2011
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2011.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 340

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 340.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad.

4. Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol 2010

Cyflwynwyd yr adroddiad monitro oedd yn adlewyrchu sefyllfa diwedd y flwyddyn. Nodwyd bod y rhan fwyaf o'r targedau wedi eu cyflawni dros y flwyddyn ar wahân i'r isdeitlo Saesneg a syrthiodd yn sgil newid yn y polisi ym mis Hydref.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y Cynllun ar gyfer ei gyhoeddi.

5. Cynllun Corfforaethol 2011

Cyflwynwyd fersiwn diwygiedig o'r Cynllun Corfforaethol 2011 yn dilyn sylwadau pellach gan y Tîm Rheoli yn eu cyfarfod ar 11.01.2011.

Cymeradwyodd yr Awdurdod gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol 2011 i'r staff.

6. Trafodaethau gyda'r BBC/ADdCCh/S4C

Cafwyd diweddariad gan y Prif weithredwr. Cytunwyd y dylid canolbwyntio ar lywodraethiant yn gyntaf. Roedd y BBC am gael amser i ystyried cynllun S4C cyn ymateb i'r cyfarfod. Nodwyd nad oedd yr ADdCCh am newid y ddeddfwriaeth sylfaenol cyn cyhoeddi'r Mesur Cyfathrebiadau.

7. Adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

Cymeradwyodd y Pwyllgor adroddiadau'r archwilwyr mewnol. Yna trafodwyd yr Asesiad Anghenion Archwilio am y flwyddyn.

8. Adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Cynnwys

Cafwyd cyflwyniad ar y newidiadau i'r Datganiad Polisi Rhaglenni 2011. Yn dilyn trafodaeth cymeradwyodd yr Awdurdod y newidiadau a chytunwyd i'w gyhoeddi.

9. Fforwm Cyfryngau Newydd

Oherwydd y tywydd garw ni fu'n bosibl i bawb fynychu'r cyfarfod. Y cam nesaf yw penodi hyd at 8 person i gynorthwyo S4C yn y maes.

10. Cyfarfod gydag Undeb y Cymdeithasau Cymraeg

Roed yr Undeb yn falch o S4C ac yn croesawu'r cyfle i fynegi eu pryderon. Darperir briff o'r syniadau a threfnir cyfarfod pellach pan fydd mwy o wybodaeth am y trafodaethau.

Ymateb yr Awdurdod i Adroddiad Syr Jon Shortridge

Derbyniwyd sylwadau'r Tîm Rheoli i'r adroddiad ac ymateb yr Awdurdod. Caiff y sylwadau eu hymgorffori yn ymateb yr Awdurdod. Cymeradwywyd ymateb yr Awdurdod a gyhoeddir maes o law.

4. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad Gwifren
- Materion Personél